



Live Fear Free Helpline **Linell Gymorth Byw Heb Ofn**
 Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales. Darparu gwybodaeth a chefnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru.
0808 80 10 800




Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
 Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
 Putting Women & Children First

Ymateb Cymorth i Ferched Cymru i Ymgynghoriad – Gorffennaf 2019

Ein Cwricwlwm Cenedlaethol: Cwricwlwm Gweddnewidiol

Enw:	<i>Catherine Phillips, Swyddog Materion Cyhoeddus Plant a Phobl Ifanc</i>
Sefydliad:	<i>Cymorth i Ferched Cymru</i>
Cyfeiriad Ebst:	<i>CatherinePhillips@welshwomensaid.org.uk</i>
Rhif ffôn:	<i>02920 451 551</i>
Cyfeiriad:	<i>Tŷ Pendragon, Plas Caxton, Pentwyn, Caerdydd CF23 8XE</i>
Dyma safbwyntiau:	<i>Cymorth i Ferched Cymru (Trydydd Sector) - yr elusen genedlaethol yng Nghymru sy'n gweithio i ddileu cam-drin domestig a phob math o drais yn erbyn menywod.</i>

Ynglŷn â Cymorth i Ferched Cymru

Cymorth i Ferched Cymru yw'r corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau annibynnol arbenigol yng Nghymru yn y trydydd sector sy'n gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol (sy'n cynnwys ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol ac aelodau rhanbarthol Fforymau Darparwyr Gwasanaethau Arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol).¹ Mae'r gwasanaethau hyn, fel rhan o rwydwaith o ddarpariaeth yn y Deyrnas Unedig, yn darparu cymorth sy'n achub ac yn newid bywydau yn ogystal â gwaith ataliol mewn ymateb i drais yn erbyn menywod, gan gynnwys cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Fel corff ymbarél, ein prif bwrpas yw atal cam-drin domestig, trais rhywiol a phob math o drais yn erbyn menywod a sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i oroeswyr, a'r rheini'n wasanaethau sy'n ymateb i anghenion, sy'n dangos cydraddoldeb rhywiol ac sy'n holisitig. Cydweithiwn yn genedlaethol i integreiddio a gwella ymatebion ac arferion cymunedol yng Nghymru; darparwn gyngor, gwasanaethau ymgynghori, cefnogaeth a hyfforddiant i gyflenwi gwelliannau polisi a gwasanaeth ar

¹ Mae ein haelodaeth o wasanaethau arbenigol trydydd sector yng Nghymru sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, y mae gennym gytundebau partneriaeth cenedlaethol â hwy er mwyn sicrhau y cydlynir ac integreiddir ein gwaith, yn cynnwys: Dylunio a Mynediad Aberconwy, Atal y Fro, Cymorth i Ferched Bangor a'r Cylch, Cymorth i Ferched Cymdeithasau Tai Clwyd Alyn (CAHA), *Stepping Stones*, *Safer Merthyr Tydfil*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Caerfyrddin, *Calan DVS*, Cymorth i Fenywod Caerdydd, Cymorth i Fenywod Cyfannol, Uned Diogelu Trais Teuluol (*DASU*), Gorwel (Grŵp Cynefin), *Montgomeryshire Family Crisis Centre*, Cymorth i Fenywod Casnewydd, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gogledd Sir Ddinbych, Cymorth i Ferched Port Talbot ac Afan, Cymorth i Fenywod Rhondda Cynon Taf, Cymru Ddiogelach (gan gynnwys prosiect *Dyn*), Cymorth i Fenywod Abertawe, *Threshold*, Gwasanaeth Cam-drin Domestig Gorllewin Cymru a Chanolfan Trais a Cham-drin Rhywiol (*RASASC*) Gogledd Cymru.



Live Fear Free Helpline

Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales.

0808 80 10 800

Llinell Gymorth Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru.



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

draws gwasanaethau'r llywodraeth, gwasanaethau cyhoeddus, preifat a thrydydd sector ac o fewn cymunedau, a hynny er budd goroeswyr.

Rydym ni hefyd yn darparu gwasanaethau uniongyrchol gan gynnwys, er enghraifft, Llinell Gymorth Byw Heb Ofn a ariennir gan Lywodraeth Cymru, a phartneriaeth Gwasanaeth Hyfforddi Cenedlaethol. Rydym yn treillau prosiect 'Gwasanaethau Grymuso ac Addysgu Goroeswyr' (SEEdS), sy'n grymuso goroeswyr trais a cham-drin i ddod at ei gilydd i ysbrydoli ac i ddylanwadu ar welliannau mewn gwasanaethau cyhoeddus a fframweithiau comisiynu, ac i fod yn gymorth i newid agweddau.

Rydym ni hefyd yn cyflewni Safonau Ansawdd Cenedlaethol Cymru, fframwaith achredu cenedlaethol i wasanaethau cam-drin domestig arbenigol yng Nghymru (a gefnogir gan Lywodraeth Cymru) fel rhan o gyfres o systemau a fframweithiau achredu integredig yn y DU. (Ceir mwy o wybodaeth ynghylch y Safonau Ansawdd Cenedlaethol yma : <http://www.welshomensaid.org.uk/what-we-do/our-members/standards/>)

Rhagarweiniad

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn croesawu'r cyfle i lywio'r ymgynghoriad ar ddatblygiad y cwricwlwm newydd yn arbennig mewn perthynas â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac iechyd a lles er mwyn sicrhau bod yr amcanion a'r uchelgeisiau a nodir yn *Cwricwlwm i Gymru – Cwricwlwm am Oes* yn cael eu bodloni.

Gwyddom fod bron 20% o fyfyrwyr iau rhwng 11 a 14 mlwydd oed yng Nghymru wedi profi cam-drin geiriol o leiaf unwaith neu fwy o fewn perthnasoedd, sy'n codi i bron 40% o fyfyrwyr rhwng 15 ac 16 mlwydd oed. Gwyddom hefyd fod hyd at 1 ym mhob 5 o ferched ysgolion uwchradd yng Nghymru yn dweud iddynt gael eu cyffwrdd, eu byseddu neu'u cusanu gan fachgen yn yr ysgol o leiaf unwaith.²

Gwyddom hefyd fod plant a phobl ifanc yn profi trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn ystod eu plentyndod o fewn eu teuluoedd. Cefnogwyd 1,121 o blant gan wasanaethau arbenigol cymunedol/allgymorth trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru yn 2017/18, a chefnogwyd 1,065 o blant o dan 16 mlwydd oed mewn darpariaeth lloches.³ Bu cynnydd o flwyddyn i flwyddyn o 4% yn nifer y plant sy'n cael gwasanaethau cymorth o fewn llochesau.⁴

Gall y profiadau hyn effeithio'n andwyol ar iechyd meddwl, lles, cyrhaeddiad academiaidd a pherthnasoedd plant a phobl ifanc gan barhau ymhell i mewn i'w bywyd fel oedolion. Mae addysg yn arf hanfodol i sicrhau newid hirdymor yng Nghymru i blant a phobl ifanc sy'n dioddef trais yn erbyn

² Arolwg y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion o 35,071 o fyfyrwyr mewn 87 ysgol uwchradd yng Nghymru (SHRN, 2015).

³ Data aelodaeth Cymorth i Ferched Cymru: Adroddiad ar Gyflwr y Sector 2018 <https://www.welshomensaid.org.uk/wp-content/uploads/2019/01/State-of-the-Sector-2018-Eng.pdf> [cyrchwyd 16.07.19].

⁴ Ibid.



Live Fear Free Helpline Linell Gymorth Byw Heb Ofn
Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales.
Darparu gwybodaeth a chefnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru.
0808 80 10 800




Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, ond mae'n gwbl hanfodol mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan er mwyn cynyddu cydraddoldeb rhywiol a negyddu pob math o drais.⁵

Mae angen i blant a phobl ifanc ddysgu am berthnasoedd ac addysg rhywioldeb syn berthnasol i'w hoed, a chael mynediad i ddysgu a chefnogaeth o ansawdd uchel am gydraddoldeb, diogelwch, cydsyniad rhywiol a pherthnasoedd iach. Mae'n rhaid i'r addysg gael gael ei darparu gan athrawon hyfforddedig a medrus, mewn perthynas â gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yng Nghymru. Mae angen i ysgolion fod yn fwy cymwys hefyd i adnabod a chefnogi datgeliadau gan ddisgyblion, rhieni a staff, a sicrhau bod dealltwriaeth glir o ba raglenni cymorth sydd ar gael yn y gymuned leol a sut i gael mynediad atynt. Mae pob un o'r meysydd hyn wedi'u cynnwys yn y *Canllaw Arferion Da*.⁶

Ar ôl adolygu'r Cwricwlwm Gweddnewidiol yn llawn, mae'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- 1) Adborth gan wasanaethau sy'n aelodau o Cymorth i Ferched Cymru;
- 2) Dull addysg gyfan o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb rhywiol er mwyn cynyddu lles a chyrhaeddiad academiaidd;
- 3) Sicrhau ymagwedd sydd wedi'i lywio gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol tuag at ddatblygu'r cwricwlwm, gan gynnwys Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb.
- 4) Adnabod a mynd i'r afael â normau rhywedd gormesol er mwyn lleihau'r bwlch cyrhaeddiad rhwng y rhywiau;
- 5) Adnoddau cyfredol sydd ar gael;
- 6) Hyfforddiant digonol i athrawon roi cymorth i fyfyrwyr sydd wedi'u heffeithio gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ar faterion yn ymwneud ag asesu a phresenoldeb;
- 7) Croestoriadaeth a chynwysoldeb;
- 8) Cydsyniad, gorfodaeth a rheolaeth.

1. Adborth gan wasanaethau sy'n aelodau o Cymorth i Ferched Cymru

Fel y corff ymbarél yng Nghymru sy'n cefnogi ac yn darparu cynrychiolaeth genedlaethol i wasanaethau annibynnol arbenigol yng Nghymru yn y trydydd sector sy'n gweithio i ddileu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, rydym wedi ymgynghori â'n haelodau i lywio'r ymateb hwn i'r ymgynghoriad.

Mae aelodau wedi nodi'r blaenoriaethau canlynol ar gyfer y cwricwlwm newydd:

- Dull addysg gyfan o fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched;
- Addysg integredig ar gydraddoldeb rhywiol, cynwysoldeb a chynrychiolaeth gyfartal;
- Mwy o ymwybyddiaeth ac addysg am berthnasoedd iach, y tu allan i Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb;

⁵ Gweler *Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol* Llywodraeth Cymru
<https://gweddill.gov.wales/docs/dsijg/publications/commsafety/151020-whole-education-approach-good-practice-guide-en.pdf>
[cyrchwyd 16.07.19]

⁶ Ibid.



Live Fear
Free Helpline

Providing confidential support
and information on domestic
abuse, sexual violence and
violence against women in Wales.

0808 80 10 800

Linell Gymorth
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth
cyfrinachol ynghylch trais domestig,
trais rhywiol a thrais yn erbyn merched
yng Nghymru.



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

- Darparu hyfforddiant digonol i staff ar arwyddion a symptomau camdriniaeth a'r llwybrau cymorth arbenigol sydd ar gael;
- Adnabod a thrafod normau gormesol i fynd i'r afael â rhywiaeth, dyheadau a chyrrhaeddiad.

Mae gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ledled Cymru eisoes yn darparu neu'n datblygu gwaith sy'n canolbwyntio ar y meysydd hyn, sy'n cynnwys cymorth un-i-un, gwaith grŵp drwy raglen STAR (diogelwch, ymddiriedaeth a pharch) a'r Pecyn Cymorth Adfer, a chynnal gweithdai cam-drin domestig a pherthnasoedd iach mewn ysgolion.

Fel arfer, ni chaiff gwasanaethau arbenigol eu hariannu'n benodol i ddarparu gwaith ataliol mewn ysgolion gan fod y rôl hon wedi'i chyflawni gan brosiect Sbectrwm, felly ni allant roi cymorth i ysgolion yn rheolaidd. Mae hyn yn aml o ganlyniad i ddiffyg adnoddau ac argaeledd staff, er gwaethaf y dystiolaeth economaidd am ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol gyda phlant a phobl ifanc. Trwy'r gwaith hwn, mae'r gwasanaethau sy'n aelodau o Cymorth i Ferched Cymru wedi nodi'r bylchau presennol:

- Deall beth yw trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
- Deall y gwahaniaethau rhwng perthnasoedd camdriniol a rhai nad ydynt yn gamdriniol;
- Deall pa gymorth sydd ar gael os ydynt yn profi unrhyw fath o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig neu drais rhywiol.

Hoffai'r aelodau weld cysylltiadau'n cael eu hailddatbygu rhwng ysgolion a gwasanaethau arbenigol lleol er mwyn hyrwyddo'r gwaith o ddarparu siaradwyr gwadd ar bynciau arbenigol, diwrnodau ysgol iach a gwersi Addysg Bersonol, Gymdeithasol ac Iechyd, ac ymrwymiad i ddarparu cyfleoedd i gyflawni sesiynau codi ymwybyddiaeth o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i staff a myfyrwyr.

Dylai'r cymorth ganolbwyntio ar:

- Mynediad at arbenigwyr allanol o fewn gwasanaethau arbenigol i gefnogi'r gwaith o gyflwyno gwersi neu wybodaeth am berthnasoedd iach a/neu gam-drin;
- Ymwybyddiaeth o'r gwasanaethau arbenigol lleol sydd ar gael i ddarparu cymorth i blant a phobl ifanc;
- Dealltwriaeth o ba raglenni neu wasanaethau cymorth y mae gwasanaethau arbenigol lleol yn eu darparu.

Mae gwasanaethau sy'n aelodau yn galw am gyllid i alluogi arbenigwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol i fod yn rhan o gyflwyno dull mwy cynhwysfawr a chynhwysol o ymdrin ag iechyd a lles mewn ysgolion er mwyn cyflawni'r amcanion ar gyfer y Cwricwlwm Gweddnewidiol.

2. Dull addysg gyfan o fynd i'r afael â chydraddoldeb rhywiol



Live Fear
Free Helpline

Providing confidential support
and information on domestic
abuse, sexual violence and
violence against women in Wales.

0808 80 10 800

Linell Gymorth
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth
cyfrinachol ynghylch trais domestig,
trais rhywiol a thrais yn erbyn merched
yng Nghymru.



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

Datblygwyd Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol⁷ gan Lywodraeth Cymru ar y cyd â Cymorth i Ferched Cymru i ddarparu canllaw i ysgolion ar sut i ddatblygu a chyflwyno Dull Addysg Gyfan yn llwyddiannus. Mae'n hyrwyddo cydraddoldeb rhywiol a pharch at herio trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn hybu iechyd a lles.

Mae'n argymhell y dylid rhoi'r naw elfen allweddol ganlynol ar waith:

1. Bod plant a phobl ifanc yn dysgu am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
2. Bod staff yn dysgu am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
3. Bod rhieni, gofalywr a theuluoedd yn dysgu am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
4. Bod systemau monitro a gwerthuso yn eu lle i fesur effaith y gwaith hwn;
5. Bod mesurau yn eu lle i gefnogi pobl sy'n profi mathau o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
6. Bod cyfranogiad gweithredol gan blant a phobl ifanc, staff a rhieni/gofalywr yn y gwaith o atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol;
7. Bod camau'n cael eu cymryd i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn y gymuned ehangach;
8. Bod y gwaith mewn partneriaeth ag arbenigwyr lleol perthnasol;
9. Bod rhaglen ataliol gynhwysfawr yn cael ei sefydlu.

Mae Cymorth i Ferched Cymru yn deall bod pob math o drais yn erbyn menywod yn achos ac yn ganlyniad i anghydraddoldeb rhywiol,⁸ ac felly ei fod yn hollbwysig mynd i'r afael â hyn o fewn addysg a sicrhau nad yw menywod na materion yn ymwneud â rhywedd yn absennol o'r cwricwlwm.

Mae angen sicrhau bod atgyfnerthu negeseuon ac addysg gadarnhaol am gydraddoldeb rhywiol yn rhan o'r seilwaith academaidd sy'n bodoli o fewn a thu allan i'r ystafell ddosbarth, er enghraifft gellir defnyddio addysg gorfforol i drafod cydraddoldeb rhywiol mewn chwaraeon a ffiniau personol; defnyddio hanes i drafod mudiad y swffragetaid; defnyddio mathemateg i wneud dadansoddiad ystadegol o'r nifer o achosion o drais rhywiol yng Nghymru a chelf i archwilio rhywioli yn y cyfyngau. Yn ogystal â hyn, mae angen i fenywod fod yn fwy gweladwy yn y cwricwlwm, yn arbennig o fewn y pynciau STEM, er mwyn dangos beth sy'n gyraeddadwy ac yn normal i fenywod a merched.⁹

Dylid hefyd ystyried pwysigrwydd hyfforddi athrawon i adnabod a mynd i'r afael â dulliau ac iaith sy'n creu mwy o anghydraddoldebau rhywiol mewn perthynas â chyrhaeddiad, cyflawniad a dyheadau academaidd.¹⁰

⁷ Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol, https://www.cardiff.ac.uk/_data/assets/pdf_file/0007/522394/A-Whole-Education-Approach-to-Violence-Against-Women,-Domestic-Abuse-and-Sexual-Violence-in-Wales.pdf

⁸ Nod Datblygu Cynaliadwy 5 y Cenhedloedd Unedig: Cyflawni cydraddoldeb rhywiol a grymuso pob menyw a merch, <http://www.un.org/sustainabledevelopment/gender-equality/>

⁹ Bian, L., Leslie, S.-J., Campian, A., Gender stereotypes about intellectual ability emerge early and influence children's interests, Science, Ionawr 2017 <http://science.sciencemag.org/content/355/6323/389>

¹⁰ Jones, K., Evans, C., Byrd, R., Campbell, K. (2000) Gender equity training and teacher behavior. *Journal of Instructional Psychology*, 27 (3), 173-178, <http://www.freepatentsonline.com/article/Journal-Instructional-Psychology/66355136.html>



Live Fear Free Helpline
Linell Gymorth Byw Heb Ofn
Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales.
Darparu gwybodaeth a chefnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru.
0808 80 10 800




Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

1. Cwricwlwm wedi'i lywio gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol

Croesawodd Cymorth i Ferched Cymru y cyhoeddiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg ym mis Mai 2018 y bydd Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb yn dod yn statudol o 5 i 16 oed yn y cwricwlwm newydd erbyn 2022, yn dilyn yr argymhellion a wnaed wrth gyhoeddi Dyfodol y Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru: Argymhellion adroddiad y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd.¹¹ Cafodd yr argymhellion hyn eu hamlinellu gan y Panel o Arbenigwyr Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a sefydlwyd i helpu datblygu'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd fel rhan o Faes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant, ac roedd yn cynnwys cynrychiolaeth o Cymorth i Ferched Cymru.

Amlygodd yr adroddiad bod gan raglenni Addysg Rhyw a Pherthnasoedd sy'n seiliedig ar dystiolaeth rôl hanfodol yn y broses o weithio gyda phlant a phobl ifanc, rhieni, gofaluwr a chymunedau er mwyn archwilio'r wybodaeth a'r gwerthoedd am rywioldeb a pherthnasoedd y mae plant eisoes yn agored iddynt ac yn aml yn cael trafferth gwneud synnwyr ohonynt.

Amlygodd hefyd ymchwil ryngwladol sy'n dangos mai'r rhaglenni Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mwyaf effeithiol yw'r rheini sydd â dull gweithredu sy'n seiliedig ar hawlau a chydaddoldeb rhywiol Mae angen i faterion sy'n ymwneud â hawlau dynol a chydaddoldeb fod yn amlwg yng nghynnwys cyfleoedd cwricwlaidd ac all-gyrsiol, ac o fewn iddynt, er mwyn atgyfnerthu negeseuon allweddol ar draws ystod o bynciau, a thrwy hynny eu gwneud yn yn hygyrch i amrywiaeth o oeddrannau, cyfnodau a phrofiadau bywyd.

Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi ymgysylltu â goroeswyr ynglŷn â'u barn ar ddatblygu'r cwricwlwm drwy gydol y broses. Mae goroeswyr wedi dweud wrthym y dylai cydraddoldeb rhywiol fod yn rhan o strwythur yr ysgol a bod angen integreiddio cydraddoldeb rhywiol ar draws y cwricwlwm, yn ogystal â strwythurau ysgol sy'n hyrwyddo cydraddoldeb a pharch rhwng y rhywiau, a chymorth i blant a phobl ifanc mewn ysgol sy'n cael eu heffeithio gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Rwyf am i'm merch a'i ffrindiau wybod. Hoffwn i fod wedi cael mwy o wybodaeth, wnes i erioed ei weld e'n dod a dwi ddim yn dwp, ond doedd gyda ni ddim addysg nac ymwybyddiaeth. Doeddwn i ddim yn gwybod bod gwasanaethau ar gael i'm helpu i. Dylai hyn gael ei addysgu ym mhob ysgol. Anya* (goroeswr)

Ochr yn ochr â chwricwlwm newydd sydd wedi'i lywio gan drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, y mae'r angen i ymgysylltu â gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn yr ardal i gefnogi athrawon a myfyrwyr os oes angen eu hatgyfeirio i dderbyn cymorth. Wrth i ymwybyddiaeth plant a phobl ifanc o bob math o

¹¹ Dyfodol y Cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd yng Nghymru, Llywodraeth Cymru, Rhagfyr 2017: <https://beta.gov.wales/sites/default/files/publications/2018-03/the-future-of-the-sex-and-relationships-education-curriculum-in-wales.pdf>



Live Fear
Free Helpline

Providing confidential support
and information on domestic
abuse, sexual violence and
violence against women in Wales.

0808 80 10 800

Linell Gymorth
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth
cyfrinachol ynghylch trais domestig,
trais rhywiol a thrais yn erbyn merched
yng Nghymru.



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

gam-drin gynyddu, felly hefyd gall y perygl iddynt. Mae hyn yn arbennig o arwyddocaol i blentyn neu berson ifanc sy'n byw mewn cartref camdriniol neu sy'n dioddef camdriniaeth yn ei berthynas/pherthynas ei hun. Mae'n hanfodol bod y cwricwlwm yn cynnwys cynyddu gallu plant a phobl ifanc i geisio cymorth¹², a'u bod yn cael eu cysylltu â'r gwasanaethau priodol ar gyfer y rheini sy'n datgelu profiadau o gam-drin o fewn eu perthnasoedd eu hunain neu rai eu rhieni¹³.

Mae angen i'r cwricwlwm ganolbwyntio ar gynnwysoldeb a chydarddoldeb er mwyn helpu adnabod a herio diwylliannau perthnasoedd gwael neu normau rhywedd gormesol sy'n creu mwy o gam-drin, a hynny yn unol â'r argymhellion isod:

- Dylai'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gael ei lywio gan yr egwyddorion craidd canlynol: Teg i Hawliau a Rhywedd; Creadigol a Chwilfrydig; Grymusgar a Gweddnewidiol; canolbwyntio ar Brofiad agos a Chydgynhyrchu; Holistig; Cynhwysol; Amddiffynnol ac Ataliol;
- Dylai Maes Dysgu a Phrofiad Iechyd a Llesiant gael statws cyfartal â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill;
- Mae angen datblygu'r cwricwlwm gydag arbenigedd sydd wedi'i lywio gan oroeswyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth, cynwysoldeb a chydarddoldeb rhywiol;
- Dylid datblygu'r cwricwlwm mewn partneriaeth gyda gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn sicrhau ei fod yn seiliedig ar eu harbenigedd a'i fod yn creu llwybrau at gymorth;
- Mae angen i gynnwys y cwricwlwm newydd gydfynd â'r adnoddau cyfredol, megis y cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a'r Dull Addysg Gyfan;
- Mae angen rhoi cyfle i blant a phobl ifanc lywio'r cwricwlwm newydd ac i roi adborth amdano.

Fel yr amlyga'r ystadegau uchod, ni all plant a phobl ifanc aros tan 2022 i sicrhau bod ymateb ysgolion i drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol a chydarddoldeb rhywiol yn briodol. Mae'r plant a'r bobl ifanc mewn ysgolion heddiw yn dweud wrthym eu bod yn cael eu peledu â negeseuon dryslyd a gwreig-gasaol am ryw a pherthnasoedd. Maent am gael eu haddysgu am gam-drin domestig a'r cymorth sydd ar gael, ac am sut i feithrin perthnasoedd diogel a chyfartal.

2. Adnabod a mynd i'r afael â normau rhywedd gormesol

Ochr yn ochr â'r gwelliant a'r cynnydd o ran integreiddio cydraddoldeb rhywiol ar draws y cwricwlwm fel mecanwaith i gynyddu lles, perthnasoedd iach a lleihau pob math o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, mae angen mynd i'r afael â normau rhywedd gormesol sy'n hybu'r bwlch cyrhaeddiad.

Er bod merched yn llwyddo'n gyson i wneud yn well na bechgyn mewn sgoriau profion¹⁴, a bron i 100,000 mwy o fenywod na dynion wedi gwneud cais i brifysgol yn 2016/17¹⁵, mae anghydarddoldebau sylweddol i fenywod o hyd ar draws y sbectrwm proffesiynol gan gynnwys diffyg

¹² Miller, D. & Brown, J. (2014) We have the right to be safe: Protecting disabled children from abuse: Executive summary. NSPCC

¹³ Stanley, J. Ellis, N. Farrelly, S. Hollinghurst, and S. Downec (2015) Preventing domestic abuse for children and young people: A review of school-based interventions. Children & Youth Services Review

¹⁴ <http://www.genderttrust.org.uk/gender-inequality-in-the-british-education-system/>

¹⁵ <https://www.independent.co.uk/news/education/gender-gap-university-students-men-women-applications-uk-a8442941.html>



Live Fear
Free Helpline

Providing confidential support
and information on domestic
abuse, sexual violence and
violence against women in Wales.

0808 80 10 800

Linell Gymorth
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth
cyfrinachol ynghylch trais domestig,
trais rhywiol a thrais yn erbyn merched
yng Nghymru.



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

cynrychiolaeth mewn seneddau cenedlaethol¹⁶. Ar hyn o bryd mae'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn 18.4% ar gyfer gweithwyr llawn amser a 13.7% ar gyfer gweithwyr rhan amser¹⁷.

Mae Cymorth i Ferched Cymru wedi cynnal gweithdai gyda phlant a phobl ifanc ledled Cymru i gasglu eu barn ar normau gwrywaidd a benywaidd ac fe nodwyd delfrydau gormesol. Nodweddion sy'n parhau i fod yn drwm o dan ddylanwad anghydraddoldeb rhywiol, megis goddefoldeb, ymddarostyngiad a lleihad mewn cyrhaeddiad proffesiynol wrth geisio 'cydbwysedd gwaith/bywyd' ar gyfer ffeministaeth, a chryfder, goruchafiaeth a bri ar yrfa ar gyfer gwrywdod, a'r cyfan yn atgyfnerthu normau cymdeithasol-ddiwylliannol anghydraddoldeb rhywiol. Mae'r gwaith hwn yn cadarnhau'r angen i dorri ar draws y syniadau problematig hyn.

3. Adnoddau cyfredol sydd ar gael

Canfu adolygiad Estyn yn 2017 o Addysg Perthnasoedd iach nad oedd ysgolion yn rhoi digon o amser na phwysigrwydd i addysgu a chefnogi plant i feithrin perthnasoedd diogel, iach a pharchus o oedran ifanc.¹⁸ Canfu'r adroddiad hefyd fod addysg bersonol a chymdeithasol yn rhy anghyson o ran ei chynnwys a'i darpariaeth, a bod ysgolion yn arbennig yn methu ag addysgu pobl ifanc am drais yn erbyn menywod a merched ac i ddarparu dull ysgol gyfan o atal camdriniaeth o'r fath.

Mae ambell ysgol yng Nghymru yn cyflawni arferion addawol, sy'n golygu cydweithio'n agos â gwasanaethau arbenigol cam-drin domestig a thrais rhywiol i gynllunio a chyd-ddarparu sesiynau, mewn ardaloedd lle mae gwasnaethau arbenigol yn y gymuned wedi'u cyllido hefyd i gefnogi plant sy'n cael eu cam-drin. Mae angen rhannu hyn ar draws ysgolion er mwyn adeiladu ar y gwaith hwn. Felly dylai pob ysgol sy'n arloesi arwain y ffordd drwy ddefnyddio'r adnoddau hyn ac ymgysylltu â gwasanaethau arbenigol. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, prin yw'r dystiolaeth bod hyn yn digwydd yn gyson.

Yn ogystal â hyn, mae gwaith wedi'i wneud gan y trydydd sector i ddatblygu adnoddau cyflwyno mewn lleoliadau addysgol lle y gellir meithrin agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb rhywiol a pherthnasoedd iach a pharchus yn awr ac yn y dyfodol.

AGENDA: Canllaw i Bobl Ifanc ar wneud i Berthnasoedd Cadarnhaol Gyfri¹⁹ yw canllawiau cenedlaethol cyntaf Cymru i bobl ifanc ar sut y gallant, mewn ffordd ddiogel a chreadigol, wneud i berthnasoedd cadarnhaol gyfri. Ei nod yw helpu pobl ifanc i ymarfer eu hawliau, i gael eu hysbrydoli gan straeon pobl eraill ac i gefnogi ei gilydd i gychwyn ar y gwaith o rannu a newid yr hyn sy'n cyfri iddynt. Fe'i datblygwyd mewn partneriaeth rhwng Prifysgol Caerdydd (Dr Emma Renold), Cymorth i Ferched Cymru, NSPCC Cymru a Chomisiynydd Plant Cymru.

Mae **S.T.A.R (diogelwch, ymddiriedaeth a pharch)**, sy'n gyfres o wasanaethau, yn ystod o raglenni grŵp sydd wedi'u creu i addysgu plant a phobl ifanc am drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol ac i gefnogi plant a phobl ifanc sydd wedi ei ddiodef naill ai'n uniongyrchol neu'n

¹⁶ <http://www.unwomen.org/en/what-we-do/leadership-and-political-participation/facts-and-figures>

¹⁷ <https://www.fawcettsociety.org.uk/close-gender-pay-gap>

¹⁸ <https://www.estyn.gov.wales/thematic-reports/review-healthy-relationships-education>

¹⁹ <http://agenda.wales/>



Live Fear
Free Helpline

Providing confidential support
and information on domestic
abuse, sexual violence and
violence against women in Wales.

0808 80 10 800

Linell Gymorth
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth
cyfrinachol ynghylch trais domestig,
trais rhywiol a thrais yn erbyn merched
yng Nghymru.



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

anuniongyrchol. Anelir y rhaglenni sy'n canolbwyntio ar gymorth at blant iau, o 4 i 11 oed, a chânt eu cyflwyno gan aelodau gwasanaethau arbenigol Cymorth i Ferched Cymru yn unig, gan weithwyr plant ymroddedig, er mwyn cydnabod pwysigrwydd cyflawni'r gwaith hwn yn foesebol ac yn briodol. Mae rhaglenni ar gyfer plant hŷn a phobl ifanc (11-25 mlwydd oed) yn ataliol (dylid nodi, fodd bynnag, fod blaenoriaeth yn cael ei roi i'r rhai sydd â phrofiad o gam-drin domestig) a chânt eu cyflwyno'n aml mewn clybiau ieuenctid ac ysgolion i hysbysu plant a phobl ifanc am faterion sy'n ymwneud â thrais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Yn y gorffennol mae Cymorth i Ferched Cymru wedi cynllunio trafodaethau grwpiau ffocws cyfranogol i geisio rhoi cyfle i blant a phobl ifanc siarad am raglen S.T.A.R.

4. Hyfforddiant digonol i athrawon

Bob blwyddyn mae 750,000 o blant a phobl ifanc ledled y DU yn dyst i gam-drin domestig neu'n ei ddiodeff, ac mewn ysgol o 1,000 o blant, gyda chyfartaledd union o'r ddwy ryw, bydd 250 o'r merched a 180 o'r bechgyn wedi profi ryw fath o drais wrth law eu cariad.²⁰

Pwysleisiodd goreswyr bwysigrwydd "ymgysylltu'n ystyrlon" gyda'r plant hyn a sicrhau bod pob athro/athrawes yn ymwybodol o unrhyw broblemau fel y gellir cefnogi'r disgyblion yn y dosbarth. Roedd hyn yn ychwanegol at gael mynediad at gyfeirio digonol fel bod athrawon yn gwybod i ble y gallant fynd i gael cymorth ychwanegol, ac at wrando ar y rhiant nad yw'n cam-drin pan fo'n mynegi pryderon.

Mae *Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol* yn amlinellu pwysigrwydd dull 'ysgol gyfan' aml-haen i roi'r cymorth sydd ei angen ar blant, drwy naw maes allweddol. Mae hyn yn cynnwys:

- Hyfforddiant staff a gynigir ym mhob ysgol yn unol â'r Fframwaith Hyfforddi Cenedlaethol o dan Ddeddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015.
- Plant a phobl ifanc, staff a rhieni/gofalwyr yn cymryd rhan weithredol i atal trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae'n cynnwys plant hŷn yn cael eu hyfforddi i fentora rhai iau a/neu gyflwyno gweithdai neu wasanaethau ar bynciau perthnasol a rhieni ac athrawon yn cael mynediad at wybodaeth ac yn cael eu hannog i arwain sgysiau neu raglenni.
- Mynediad at arbenigwyr lleol a chysylltiadau â gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Fodd bynnag, nododd *Estyn: Adolygiad o addysg perthnasoedd iach* fod y ddarpariaeth mewn ysgolion ar gyfer addysgu am gam-drin domestig yn rhy aml yn un ar ffurf diwrnod thema, gwers ar wahân neu flociau bach o sesiynau. O ganlyniad, nid yw ysgolion bob amser yn cyflwyno negeseuon hanfodol yn ddigon aml i sicrhau bod disgyblion yn eu llwyr ddeall, er bod gan y mwyafrif o ysgolion drefniadau ar waith i gefnogi disgyblion sydd wedi profi cam-drin domestig neu drais rhywiol.

²⁰ Estyn: Adolygiad o addysg perthnasoedd iach, <https://www.estyn.gov.wales/thematic-reports/review-healthy-relationships-education>



Live Fear Free Helpline Linell Gymorth Byw Heb Ofn
Providing confidential support and information on domestic abuse, sexual violence and violence against women in Wales. Darparu gwybodaeth a chefnogaeth cyfrinachol ynghylch trais domestig, trais rhywiol a thrais yn erbyn merched yng Nghymru.
0808 80 10 800




Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid
Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

5. Croestoriadaeth a chynwysoldeb

Mae yna ymchwil i ddangos bod plant sydd ag anabledd dysgu yn wynebu mwy o risg o gam-drin rhywiol a chorfforol ac o esgeulustod.²¹ Y plant anabl sy'n wynebu'r risg fwyaf o gael eu cam-drin yw'r rheini ag anhwylderau ymddygiad, mae grwpiau risg eraill yn cynnwys plant ag anawsterau/anableddau dysgu, plant ag anawsterau lleferydd ac iaith, plant â chyflyrau iechyd a phlant byddar.²² Mae plant ag anabledd dysgu a'u teuluoedd hefyd yn fwy tebygol o fod wedi'u hynysu'n gymdeithasol ac o ddioddef tloidi materol ac emosiynol,²³ gan ddioddef o anghydraddoldebau niferus sy'n gorgyffwrdd â'i gilydd. Mae'n hanfodol felly i'w grymuso ag addysg sy'n eu cynorthwyo i geisio cymorth a chael dealltwriaeth glir o'u hawliau i gael perthnasoedd iach a chydysniol.

6. Cydsyniad, gorfodaeth a rheolaeth

Dylai Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb barhau'n orfodol hyd at 18 oed. Bob blwyddyn mae 750,000 o blant a phobl ifanc ledled y DU yn dyst i gam-drin domestig neu'n ei ddioddef, ac mewn ysgol o 1,000 o blant, gyda chyfartaledd union o'r ddwy ryw, bydd 250 o'r merched a 180 o'r bechgyn wedi profi ryw fath o drais wrth law eu cariad.²⁴ Mae angen i sgysiau sy'n ymwneud â chydysnio, gorfodaeth, rheolaeth a cham-drin fod yn barhaus er mwyn sicrhau newid diwylliant sy'n cael ei gynnal ymhell i'w bywyd fel oedolion.

Casgliad

Mae gan bob plentyn a pherson ifanc yr hawl i ystod lawn o gyfleoedd dysgu, i'w harfogi i ddeall cydsyniad, stereoteipiau rhywedd, yr hyn nad yw'n dderbyniol mewn perthnasoedd, a sut i gael cymorth gan wasanaethau arbenigol os ydynt yn dioddef camdriniaeth. Mae lleoliadau addysgol yn safleoedd pwysig lle y gellir herio agweddau sy'n caniatáu trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol, a stereoteipiau rhywedd, a lle y gellir meithrin agweddau cadarnhaol tuag at gydraddoldeb rhywiol a pherthnasoedd iach. Bydd cyflwyno cwricwlwm Addysg Rhyw a Perthnasoedd yn effeithiol yn cyfrannu yn y tymor byr at fwy o amddiffyniad i bobl ifanc, ac yn yr hirdymor at leihau nifer yr achosion o drais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol.

Crynodeb o'r argymhellion

- Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod *Canllaw Arferion Da: Dull Addysg Gyfan o fynd i'r afael â Thrais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol yng Nghymru* yn cael ei hyrwyddo ym mhob ysgol a hynny â chymorth i'w wreiddio'n ymarferol.

²¹ Allington-Smith, P., Ball, R., & Haytor, R. (2002). Management of sexually abused children with learning disabilities. *Advances in Psychiatric Treatment*, cyfrol 8, tud. 66–72

²² Miller, D. & Brown, J. (2014) We have the right to be safe: Protecting disabled children from abuse: Executive summary. NSPCC

²³ Allington-Smith, P., Ball, R., & Haytor, R. (2002). Management of sexually abused children with learning disabilities. *Advances in Psychiatric Treatment*, cyfrol 8, tud. 66–72

²⁴ Estyn: Adolygiad o addysg perthnasoedd iach, <https://www.estyn.gov.wales/thematic-reports/review-healthy-relationships-education>



Live Fear
Free Helpline

Providing confidential support
and information on domestic
abuse, sexual violence and
violence against women in Wales.

Linell Gymorth
Byw Heb Ofn

Darparu gwybodaeth a chefnogaeth
cyfrinachol ynghylch trais domestig,
trais rhywiol a thrais yn erbyn merched
yng Nghymru.

0808 80 10 800



Cymorth i Ferched Cymru
Welsh Women's Aid

Rhoi Merched a Phlant yn Gyntaf
Putting Women & Children First

- Mae angen i arbenigwyr allanol gynnal hyfforddiant i athrawon er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth a grymuso staff i adnabod arwyddion a symptomau fel bod pob plentyn a pherson ifanc yn medru teimlo eu bod yn derbyn cymorth.
- Dylai'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd gael ei lywio gan yr egwyddorion craidd canlynol: Teg i Hawliau a Rhywedd; Creadigol a Chwilfrydig; Grymusgar a Gweddnewidiol; canolbwyntio ar Brofiad agos a Chydgynhyrchu; Holistig; Cynhwysol; Amddiffynnol ac Ataliol.
- Dylai Maes Dysgu a Phrofiad lechyd a Llesiant gael statws cyfartal â Meysydd Dysgu a Phrofiad eraill.
- Mae angen datblygu'r cwricwlwm gydag arbenigedd sydd wedi'i lywio gan orosywyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn hyrwyddo ymwybyddiaeth, cynwysoldeb a chydaddoldeb rhywiol.
- Dylid datblygu'r cwricwlwm mewn partneriaeth gyda gwasanaethau arbenigol trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol er mwyn sicrhau ei fod yn seiliedig ar eu harbenigedd a'i fod yn creu llwybrau at gymorth.
- Mae angen i gynnwys y cwricwlwm newydd gydfynd â'r adnoddau cyfredol, megis y cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a'r Dull Addysg Gyfan.
- Mae angen rhoi cyfle i blant a phobl ifanc lywio'r cwricwlwm newydd ac i roi adborth amdano.
- Sicrhau bod pob plentyn a pherson ifanc yn elwa o gael mynediad i gwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd priodol o ansawdd uchel a dull addysg gyfan, gan gynnwys y rheini ag anghenion addysgol arbennig neu sydd mewn addysg anffurfiol.
- Dylai ysgolion sy'n arloesi, gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru a sefydliadau arbenigol, archwilio sut y gellir ymgorffori'r cwricwlwm Addysg Rhyw a Pherthnasoedd mewn 'dull addysg gyfan'.

Gall unrhyw un sydd wedi'i effeithio gan gam-drin domestig neu unrhyw fath arall o drais yn erbyn menywod gysylltu â Llinell Gymorth rad ac am ddim Byw Heb Ofn – llinell gymorth 24 awr i fenywod, plant a dynion sy'n dioddef cam-drin domestig, trais rhywiol a mathau eraill o drais yn erbyn menywod - ar 0808 80 10 800, drwy ei we-sgwrs neu drwy ebost

info@livefearfreehelpline.wales.

Bydd Cymorth i Ferched Cymru yn parhau i weithio i wella dioglewch i blant sydd wedi profi cam-drin domestig, drwy weithio gyda goroeswyr a'u plant er mwyn i'w lleisiau gael eu clywed. Os oes gennych unrhyw sylwadau neu gwestiynau am y papur briffio hwn, mae croeso i chi gysylltu â:

Catherine Phillips

Swyddog Materion Cyhoeddus Plant a Phobl Ifanc

CatherinePhillips@welshwomensaid.org.uk

02920541551